Cynllun a wnaed o dan Adran 19 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015

May 2022

Rheoli fersiwn

Fersiwn 1 o'r Cynllun yw hwn ar gyfer cymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol. Cyhoeddwyd y fersiwn hwn ar 13 Mai 2022.

Croesewir adborth ar y Cynllun hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org.

Mae'r Cynllun hwn hefyd ar gael yn y Saesneg.

Cynnwys

Cyflwyniad 4

Sail statudol y Cynllun 4

Cymwysterau Cymeradwy a chymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol 5

Ffactorau sy'n debygol o gael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid ystyried cymhwyster nad yw'n gymhwyster blaenoriaethol i'w gymeradwyo 5

Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol 6

Cyflwyniad

Sail statudol y Cynllun

Yn unol â Rhan 4, Adran 19 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf"), mae'r Cynllun hwn yn nodi'r ffactorau rydym yn debygol o'u hystyried wrth benderfynu a ddylid ystyried ceisiadau i gymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi ein gweithdrefn ar gyfer cymeradwyo cymwysterau o'r fath.

Nodir y sail ddeddfwriaethol ar gyfer y Cynllun isod ac fe'i gwneir yn unol ag Adran 19(5) ac fe'i cyhoeddir yn unol ag Adran 19(9) o'r Ddeddf.

Y polisi sy'n sail i'r weithdrefn hon yw'r Polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a Chymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig.

19 Cymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys ble—

(a) bod cais yn cael ei wneud i Gymwysterau Cymru, i gymeradwyo ffurf ar gymhwyster, gan gorff dyfarnu a gydnabyddir mewn perthynas â dyfarnu'r cymhwyster o dan sylw, a

(b) bod Cymwysterau Cymru wedi ei fodloni nad yw'r cymhwyster o dan sylw yn gymhwyster blaenoriaethol.

(2) Caiff Cymwysterau Cymru, yn ôl ei ddisgresiwn, benderfynu a ddylid ystyried ffurf y cymhwyster i'w gymeradwyo.

(3) Os yw Cymwysterau Cymru yn ystyried ffurf y cymhwyster i'w gymeradwyo caiff gymeradwyo ffurf y cymhwyster i'w ddyfarnu yng Nghymru gan y corff o dan sylw, os yw o'r farn ei fod yn briodol gwneud hynny.

(4) Ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 21 (pŵer i bennu gofynion sylfaenol).

(5) Rhaid i Cymwysterau Cymru lunio cynllun sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gwneud penderfyniadau o dan yr adran hon.

(6) Rhaid i'r cynllun, ymhlith pethau eraill, nodi ffactorau sy'n debygol o gael eu hystyried gan Gymwysterau Cymru wrth benderfynu a ddylid ystyried math o gymhwyster i'w gymeradwyo.

(7) Rhaid i Cymwysterau Cymru arfer ei swyddogaethau yn unol â'r cynllun.

(8) Gall Cymwysterau Cymru ddiwygio'r cynllun.

(9) Rhaid i Cymwysterau Cymru gyhoeddi'r cynllun.

Cymwysterau Cymeradwy a chymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol

Mae'r holl gymwysterau Cymeradwy wedi bodloni Meini Prawf Cymeradwyo penodol sydd wedi'u datblygu a'u cyhoeddi gennym ni. Rhaid i gyrff dyfarnu cydnabyddedig ddangos bod eu dyluniad o gymhwyster yn bodloni'r meini prawf hyn cyn i ni gymeradwyo'r math hwnnw o gymhwyster a chaniatáu iddynt gynnig y cymhwyster. Fel hyn, rydym yn sicrhau bod cymwysterau Cymeradwy wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Byddwn yn cymeradwyo'r cymwysterau am gyfnod penodol, a dim ond gyda'r rhif cymeradwyo a nodwyd yng Nghymru y gellir eu dyfarnu.
Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i ni ddewis a ydym am ystyried, i'w cymeradwyo, gymwysterau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ("cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol"). Mae hyn yn sefydlu gwahaniaeth rhwng cymwysterau ar y rhestr (y mae Cymwysterau Cymru'n ***gorfod*** ystyried, neu ***gorfod*** ystyried yn unol â'i Gynllun perthnasol (adrannau 16 – 18)[1], a chymwysterau nad ydynt ar y rhestr (y **gall** Cymwysterau Cymru eu hystyried).

Ffactorau sy'n debygol o gael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid ystyried cymhwyster nad yw'n gymhwyster blaenoriaethol i'w gymeradwyo

Mae'r ffactorau rydym yn debygol o'u hystyried wrth benderfynu a ddylid ystyried ffurf y cymhwyster i'w gymeradwyo yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- bod y cymhwyster yn cael ei gynnig gan gorff dyfarnu cydnabyddedig;

[1] Cynllun a wnaed o dan Adran 15 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, a Chynllun a wnaed o dan Adran 17 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015

- bod y corff dyfarnu yn cael ei gydnabod i ddyfarnu cymwysterau o'r fath neu ddisgrifiad o gymwysterau;
- rydym wedi datblygu a chyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster, neu ddisgrifiad o'r cymhwyster;
- ni ystyrir bod y cymhwyster yr un fath neu'n debyg i gymhwyster Cymeradwy (am fwy o fanylion am yr un cymwysterau neu gymwysterau tebyg, gweler ein Polisi Dynodi);
- bernir bod y cymhwyster yn ychwanegu gwerth at y cynnig cymhwyster Cymeradwy, a'i fod yn cael digon o gymorth gan Ddefnyddwyr cymwysterau;
- ni ystyrir bod y cymhwyster yn flaenoriaeth gyfredol i'w gymeradwyo fel rhan o'n rhaglen waith diwygio cymwysterau;
- nad yw'r cymhwyster a gyflwynir i'w gymeradwyo wedi'i gynnwys ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol, a
- bod mwy o hyblygrwydd o ran cymeradwyo'r cymhwyster fel un sy'n gymwys ar gyfer cyrsiau a ariennir yn gyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed a sicrhau bod y cymhwyster ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf.

Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol

Mae'r adran hon yn amlinellu prif gamau'r weithdrefn y byddwn yn ei dilyn wrth benderfynu a ddylid ystyried cymhwyster nad yw'n gymhwyster blaenoriaethol i'w gymeradwyo.

Cyn dechrau'r weithdrefn hon, byddwn wedi penderfynu nad yw cymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster yr un peth neu'n debyg i unrhyw gymhwyster Cymeradwy ac nad yw'n gymhwyster blaenoriaethol, ac felly nid yw wedi'i gynnwys ar y Rhestr.

Byddwn yn pennu ac yn cyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo i'w cymhwyso wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo math o gymhwyster, a bydd cyrff dyfarnu cydnabyddedig yn cael gwybod y gallant wedyn gyflwyno cais am gymeradwyaeth (gweler y weithdrefn isod). Fodd bynnag, efallai y byddwn hefyd yn penderfynu gosod a chyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo yn dilyn cais gan gorff dyfarnu i gymeradwyo math o gymhwyster i'w ddyfarnu yng Nghymru.

Gweithdrefn

1. Byddwn yn pennu ac yn cyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo i'w cymhwyso wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cymhwyster ai peidio.

2. Gall cyrff dyfarnu cydnabyddedig ddewis cyflwyno math o gymhwyster i'w gymeradwyo.
3. Os derbynnir cais, byddwn yn rhoi gwybod i unrhyw gyrff dyfarnu perthnasol am yr amserlen ar gyfer y broses gymeradwyo. Byddwn yn adolygu cyflwyniadau yn erbyn y meini prawf. Mewn rhai achosion, byddwn yn defnyddio arbenigwyr pwnc i'n helpu gyda'r cam hwn.
4. Byddwn yn cynhyrchu adroddiad adborth rheoleiddio i'r cyrff dyfarnu perthnasol. Os bydd angen, byddwn yn ymgysylltu â nhw i gael eglurhad ar y cymwysterau a gyflwynwyd ganddynt.
5. Gall cyrff dyfarnu ailgyflwyno eu cymhwyster a deunyddiau eraill a fydd wedyn yn cael eu hadolygu.
6. Unwaith y bydd cymhwyster wedi'i gymeradwyo, bydd yn dod yn gymhwyster nad yw'n flaenoriaeth heb gyfyngiad cymeradwy a bydd yn cael rhif cymhwyster a chyfnod cymeradwyo.

Yn unol â'r Ddeddf, gallwn hefyd osod Amodau Cymeradwyo, sy'n golygu bod cymeradwyaeth barhaus yn amodol ar y corff dyfarnu yn cydymffurfio â'r amodau hynny. Gallwn hefyd bennu Amodau Cydnabod sy'n ymwneud yn benodol â'r math hwnnw o gymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am gymeradwyaeth ar gael yma.